

CYNGOR CYMUNED LLANWNTA

COFNODION – CYFARFOD CHWEFROR 2018

DYDDIAD	Nos Fercher, 21 Chwefror 2018
AMSER	Is-Grwp Cyllid 6yh (JH, MW, AMJ) Cyngor Cymuned 7.00yh
LLEOLIAD	Ysgol RHOSGADFAN

1.	<p>Croeso Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Gwilym Vaughan Thomas, Michelle Williams, Tom Ellis, Cyng. Aeron M Jones, Jason Hunt, Elin Evans, Gwilym Lloyd Williams, Caryl Lewis (Clerc). Rhoddwyd croeso arbennig i aelod newydd Rhostryfan, Bryn Hughes.</p>
2.	<p>Ymddiheuriadau Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Roberts a Rhys Owen. Nodwyd llongyfarchiadau gan bawb i Rhys ac Eiliw Owen ar enedigaeth eu mab Ilan Prys.</p>
3.	<p>Datgan Buddiant Dim i'w nodi</p>
4.	<p>Cadarnhau cofnodion 17 Ionawr 2018 a materion yn codi Derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigwyd hyn gan MW ac roedd JH yn eilio.</p>
5.	<p>Materion Misol:</p> <p>a) Sedd Wag Neal Williams – Rhosgadfan Nododd y Clerc ei bod wedi hysbysu Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd am y swydd wag ac yn aros am arweiniad o ran llenwi'r sedd.</p> <p>b) Meddygfa Rhostryfan Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Carol Williams, Cyngor Iechyd Cymuned i ofyn am ddiweddariad. Nodwyd fod y Bwrdd Iechyd wedi ail gyflwyno cais i gau'r Feddygfa ac y byddai Panel yn eistedd mis Mawrth. Mi fydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn cyflwyno adroddiad i'r Panel i'w ystyried. Y Clerc wedi eu hysbysu nad ydy'r Feddygfa wedi gwneud unrhyw ymdrech i ymgysylltu gyda'r gymuned a dim cysylltiad wedi bod gyda'r Cyngor Cymuned. BH - nodi nad ymgynghoriad trylwyr na thryloyw wedi bod. Dyletswyd i ymgynghori yn ffurfiol ond tydi nhw heb wneud. Mi fydd angen parhau i bwysu am wybodaeth a chynigwyd y byddai Jason Hunt yn cymryd lle Elwyn Jones mewn Cyfarfodydd i drafod y Feddygfa.</p> <p>c) Trydan Llanwnda EE yn nodi fod toriad ar 29 Ionawr, ganol nos, mi aeth i ffwrdd 4 gwaith. Mae hyn dal yn broblem ac yn chwalu peiriannau yn Sain, ddim digon da, mae i fod wedi sortio. Angen parhau i fonitro'r sefyllfa ond nodwyd nad oedd toriad wedi bod ers tro cyn hynny.</p> <p>d) Problemau Bysiau Trafodaethau yn parhau, AMJ yn trio cael gwasanaeth dydd Sul i'r Rhostryfan a Rhosgadfan a trio sortio Gwasanaeth 'call & collect', lle mae bosib rhoi galwad i mewn i fwcio bysiau 24 awr cynt. Angen datganiad gan gyngor Gwynedd yn nodi beth yw'r trefniadau fel bod y cyhoedd yn ymwybodol. Angen parhau i fonitro'r sefyllfa.</p> <p>e) Park & Ride Llanwnda Clerc di gyrru llythyr at Meirion Williams, Uwch Reolwr yn nodi ein pryderon ac yn aros am ymateb.</p> <p>f) Arolwg o gerrig beddi'r fynwent Hysbyseb yn mynd i Lleu mis Mawrth yn nodi fod arolwg yn digwydd yn ystod y Mis. Clerc i ofyn i'r Contractwr sicrhau nad ydy hyn yn digwydd tan ar ôl Sul y blodau.</p> <p>g) Safle Bysiau Dinas a Llanwnda - Seddi Contractwr wedi bod yn y Cysodfannau i blygu'r seddi yn ôl. Clerc i gael pris gan</p>

	<p>Wyn Williams ar gyfer peintio'r seddi.</p> <p>g) RO - Cyflwr y Lon o Saron i'r ysgol ac wrth giât mynedfa dwr Cymru, tyllau byth di cael eu sortio. RO ddim yn bresennol ond adroddodd y Clerc ei bod wedi adrodd wrth Gyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb.</p> <p>h) RO - Mae problem gyda'r gwter ger Rhosgawen, Saron, lleill yn tynnu dŵr a dod allan ohono. Gan fod tyllau yn y ffordd mae hyn yn gwneud y tyllau yn waeth gan fod mwy o ddŵr yn mynd lawr y lon. RO ddim yn bresennol ond adroddodd y Clerc ei bod wedi adrodd wrth Gyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb.</p> <p>i) GLLW - Tŷ dros ffordd i'r Goeden eirin, Dolydd. Caead bocys GPO i lawr yn isel o'r ffrâm. Clerc wedi adrodd ac yn aros am ymateb gan Gyngor Gwynedd.</p> <p>j) MW - Gwaredu gwastraff anghyfreithlon yn Rhosgadfan (Ymyl y cattle grid ar y ffordd am Waunfawr), mae pren a rwbwl wedi ei adael yno. Wedyn ar yr un ffordd, heibio Bryn Bach, mae Dŵr Cymru wedi bod allan i geisio datrys problem ond erbyn hyn mae dŵr yn mynd ar draws y lon ac ar y gornel, peryg os yw'n rhewi. Mae twll difrifol yn y lon cyn Tyddyn Berth. Yn gyffredinol mae'r lon yn ôl i'r pentref am Brŷn Bach yn ddirifol gyda thyllau. Clerc wedi adrodd wrth Gyngor Gwynedd ar yr holl faterion ac yn disgwyl ymateb.</p> <p>k) PR - Mae sbwriel ailgylchu yn chwythu i gerddi, enwedig o ddrwg ym Mro Cadfan. Mae bocsys yn cael eu taflu yn ôl ac yn cael eu difrodi. Clerc wedi derbyn ymateb gan Gyngor Gwynedd, Uwch Reolwr wedi bod fyny i weld y sefyllfa dros ei hun ac wedi trafod gyda staff.</p> <p>l) PR - Cwn a chathod yn dod i gerddi Bro Cadfan i faeddu. Clerc wedi adrodd wrth Gartrefi Cymunedol Gwynedd ac wedi derbyn ymateb y bydd Swyddog Cwn yn cadw golwg ar y sefyllfa.</p>
6.	<p>Derbyn Adroddiadau</p> <p>a) Wal tir newydd y Fynwent Nododd y Clerc y newyddion da fod Chwarel Moeltryfan am roi cerrig am ddim er mwyn codi wal o amgylch tir newydd y fynwent. Cyfeiriodd at lythyr gan Bethan Williams, Rhos Isaf yn codi pryderon am eiddew ar waliau'r fynwent a hefyd nad oedd tamed tir newydd y fynwent wedi ei ffensio. Bydd y Clerc yn ymateb drwy nodi nad ydy trin yr eiddew yng nghytundeb y Contractwr ond rydym yn y broses o ail-dendro gwaith y fynwent ac y byddwn yn gofyn i'r contractwr newydd ei drin. O ran y tir newydd, cafwyd cyfarfod safle gyda thenant y tir llynedd ac roedd cytundeb nad oedd pwynt ffensio'r tir ar hyn o bryd gan ein bod yn gobeithio codi'r wal yn fuan.</p> <p>b) Defibrillator - Rhostryfan Y bwriad ydy fod y Defibrillator yn cael ei osod yng Nghiosg y pentref. Cafwyd cais gan Bwyllgor y pentref i'r Cyngor Cymuned gymryd y Ciosg ymlaen. Tydi BT methu trosglwyddo'r Ciosg i'r Pwyllgor gan nad ydynt yn elusen ond mae modd trosglwyddo i Gyngor Cymuned. Felly, penderfynwyd mewn egwyddor i'r Cyngor Cymuned gymryd y Ciosg ymlaen ac yna trosglwyddo i Bwyllgor y Pentref. Cynnigwyd hyn yn unfrydol. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach o ran sut i fynd o amgylch hyn.</p> <p>c) Toriad Ychwanegol i'r Fynwent cyn Sul y Blodau Nododd y Clerc y byddai'n syniad cael Mark Balaam, Cwmni Gwalch Cyf i wneud toriad ychwanegol i'r fynwent cyn Sul y Blodau gan nad ydym yn trafod y cytundeb newydd nes cyfarfod 21 Mawrth ac y bydd rhu hwyr erbyn hynny. Clerc i holi Mark os ydy'n credu ei fod gwerth gwneud toriad ychwanegol, yna Clerc a Chadeirydd i</p>

	<p>wneud penderfyniad.</p> <p>Ch) Grit Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn llawer y gwynion yn ystod y tywydd garw gan fod pobl yn cael eu cyfeirio at y Cyngor Cymuned wrth gwyno wrth Gyngor Gwynedd. Clerc i lythyru Cyngor Gwynedd. Angen nodi ETO nad ydym wedi cymryd y cyfrifoldeb ymlaen ac mai cynnig oedd hyn i'r Cyngorau Cymuned gan Gyngor Gwynedd. Angen nodi mewn llythyr i Gyngor Gwynedd ein bod ni'n anffodlon gyda'r wybodaeth sydd yn cael ei roi allan i'r cyhoedd ac mai cyfrifoldeb nhw ydy cadw'r priffyrdd ar agor.</p>																				
7.	<p>Is-bwyllgorau</p> <p>a) Is-grŵp Cyllid - Argymhellion Ceisiadau Nawdd 2018 Nodwyd fod yr Is Bwyllgor wedi cwrdd i drafod y ceisiadau. Penderfynwyd mai ond ceisiadau a oedd yn elwa ardal Llanwnda yn uniongyrchol a fyddai'n derbyn nawdd. Gwnaed y penderfyniadau isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mynwent Hermon Moletryfan £100.00 2. Theatr Bara Caws £0 3. Neuadd Rhostryfan £250.00 4. Lleu £50.00 5. Cylch Meithrin Llanwnda £500.00 6. Seindorf Dyffryn Nantlle £0 7. Canolfan Bro Llanwnda £250.00 8. Clwb Peldroed Llandwrog £150.00 9. Ysgol Felinwnda £500.00 10. Groes Goch £0 11. Dawns i Bawb £50.00 12. Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle £0 13. Difibrillator Rhostryfan – Pwyllgor Pentref £150.00 14. Clwb Felin £100.00 15. Ysgol Rhostryfan & Rhosgadfan £1,000.00 16. Clwb Peldroed Rhostryfan a Rhosgadfan £150.00 <p>Cyfanswm Nawdd £3,250.00</p> <p>Diolchwyd i'r Is-grŵp am wneud gwaith mor drylwyr a derbyniwyd yr argymhellion yn unfrydol.</p>																				
8.	<p>Materion Ariannol</p> <p>a) Adroddiad Ariannol <u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 21 Chwefror 2018</u></p> <p><u>1. Cyfrif Cadw</u></p> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td>Balans a ddygwyd ymlaen:</td> <td style="text-align: right;">24,813.21</td> </tr> <tr> <td>- Transfer i Gyfrif Siec</td> <td style="text-align: right;"><u>3,000.00</u></td> </tr> <tr> <td>Balans ar derfyn busnes 21 Chwef 2018</td> <td style="text-align: right;">21,813.21</td> </tr> </table> <p><u>2. Cyfrif Siec</u></p> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td>Balans a ddygwyd ymlaen:</td> <td style="text-align: right;">3,131.02</td> </tr> <tr> <td>+ Transfer o Gyfrif Cadw</td> <td style="text-align: right;">3,000.00</td> </tr> <tr> <td>+ Claddiad</td> <td style="text-align: right;">700.00</td> </tr> <tr> <td> </td> <td></td> </tr> <tr> <td>- Cyllid y Wlad Ion</td> <td style="text-align: right;">104.80</td> </tr> <tr> <td>- 101050 Caryl E Lewis Cyflog Ion</td> <td style="text-align: right;">461.05</td> </tr> <tr> <td>- 101052 Gwalch Cyf</td> <td style="text-align: right;">760.00</td> </tr> </table>	Balans a ddygwyd ymlaen:	24,813.21	- Transfer i Gyfrif Siec	<u>3,000.00</u>	Balans ar derfyn busnes 21 Chwef 2018	21,813.21	Balans a ddygwyd ymlaen:	3,131.02	+ Transfer o Gyfrif Cadw	3,000.00	+ Claddiad	700.00	 		- Cyllid y Wlad Ion	104.80	- 101050 Caryl E Lewis Cyflog Ion	461.05	- 101052 Gwalch Cyf	760.00
Balans a ddygwyd ymlaen:	24,813.21																				
- Transfer i Gyfrif Siec	<u>3,000.00</u>																				
Balans ar derfyn busnes 21 Chwef 2018	21,813.21																				
Balans a ddygwyd ymlaen:	3,131.02																				
+ Transfer o Gyfrif Cadw	3,000.00																				
+ Claddiad	700.00																				
- Cyllid y Wlad Ion	104.80																				
- 101050 Caryl E Lewis Cyflog Ion	461.05																				
- 101052 Gwalch Cyf	760.00																				

	<p>- 101047 Antur Nantlle 144.00 - 101049 John D Roberts 75.00 - 101051 Caryl Lewis – Ad daliadau 138.45 Balans ar derfyn busnes 21 Chwef 2018: 5,147.72</p> <p><u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 21 Chwefror 2018:</u></p> <p>Cyflog Clerc Chwefror 461.05 Cyllid y Wlad Chwefror 104.80 Zurich 1,493.21 Lleu 30.00 Sion Owen 220.00 Cyfanswm 2,309.06</p> <p>b) Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol Nododd y Clerc ei bod yn aros am ohebiaeth gan Gyngor Gwynedd yn nodi'r amserlen ar gyfer archwiliad mewnol 2017/18.</p> <p>dd) Yswiriant 2018 Nododd y Clerc ei bod wedi llwyddo i gael y pris llai eto ar gyfer polisi 5 mlynedd. Cytunwyd i ymrwymo am 5 mlynedd arall a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.</p>
9.	<p>Materion Cynllunio C18/0107/24/LL - Codi Tŷ fforddiadwy, tir ger Bronallt, Rhosgadfan, LL54 7HE. Dim sylw na gwrthwynebiad.</p> <p>C18/0096/24/LL - Ail gyflwyniad gyda newidiadau i gais blaenorol a wrthodwyd i osod uned wyliau hunan cynhaliol gyda gwaith cysylltiol. Dim sylw.</p>
10.	<p>Gohebiaeth a chylchgronau Dim i'w nodi</p>
11.	<p>Materion Cyfarfod Nesaf EE – Beth yw'r diweddaraaf ar ffordd osgoi Bontnewydd? EE – Maes parcio Dinas, mae fan pizza yno ar y penwythnos, oes angen trwydded? GVT - Golau lôn Bodfan Rhosgadfan byth yn gweithio. GVT - Tyllau yn lôn Pen y ffridd, Rhosgadfan yn ddrwg. GVT – Cynllunio ar gyfer tai newydd yn Dinas, oes diweddariad? GVT – Angen cofnodion yn Lleu GVT – Gwelfor, Rhosgadfan – codwyd yr angen am 'through road', beth yw'r diweddaraaf? BH – Llwybr ger yr hen stesion, Rhostryfan, dwr yn casglu yno. MW – Rhif 1 Gwelfor, Rhosgadfan, cwyn fod y coed yn fawr a lot o ddrain yna. NE - Dwr ar y lon tu allan i Dolellog, Rhostryfan. Wrth rewi mae'n beryglus, dwr yn dod allan o focs GPO (reit ar y troad). MW - Angen ail ofyn eto am ddiweddariad am y dŵr ar y lon o Dŷ Hen, Rhosgadfan.</p> <p>Dyddiad: 21 Mawrth 2018 Lleoliad: Ysgol RHOSTRYFAN</p>